QW(1)300124

30 Ionawr 2024

Annwyl gydweithiwr

Heddiw, ar ôl misoedd lawer o ddadansoddi trylwyr ac ymgysylltu parhaus â’n partneriaid, rydym wedi cyhoeddi ein **hadroddiad penderfyniadau ar Y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16**.

Mae eich ymatebion i'n hymgynghoriad, dros 500 ohonynt, ynghyd â llawer o sgyrsiau a thrafodaethau addysgiadol gyda rhanddeiliaid, wedi ein galluogi i ddod i'r penderfyniadau hyn. Rydym wedi ystyried yr holl adborth yn ofalus a gallwch ddarllen yr adroddiad **penderfyniadau llawn, crynodeb gweithredol ac adroddiad haws i’w ddarllen.**

Yn yr adroddiadau hyn, rydym yn disgrifio’r cynnig cymwysterau newydd arloesol, cyffrous, cynhwysol a heriol a fydd yn cefnogi dysgwyr i gyflawni nodau a dibenion y Cwricwlwm i Gymru.

Gan adlewyrchu egwyddorion cynnydd a phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, bydd y cynnig hwn yn arfogi pobl ifanc â sgiliau ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith, gan eu helpu i fod yn gymwys ar gyfer y dyfodol.

Erbyn 2027, ynghyd â chymwysterau TGAU newydd Gwneud-i-Gymru, bydd dysgwyr 14-16 oed yn gallu dewis o:

- TAAU (Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd)
- Cymwysterau sylfaen
- Cymwysterau Sgiliau ar gyfer Bywyd a Sgiliau ar gyfer Gwaith
- Cymhwyster Prosiect Personol

Mae dysgwyr wedi chwarae rhan allweddol yn ein holl benderfyniadau gan ein helpu i ddisgrifio'r ystod o Gymwysterau Cenedlaethol 14-16. Bydd y cymwysterau hyn yn:



- paratoi dysgwyr ar gyfer heriau cymdeithas fodern, gan adlewyrchu amrywiaeth y byd rydym yn byw ynddo
- ymgorffori technolegau digidol i gymwysterau sy'n ddiogel i'r dyfodol
- cynnwys amrywiaeth o ddulliau asesu perthnasol, deniadol ac amrywiol
- cefnogi iechyd meddwl a lles cadarnhaol
- Hyrwyddo profiadau addysgu a dysgu cadarnhaol
- helpu dysgwyr i wneud cysylltiadau ystyrlon ar draws eu dysgu

**Beth nesaf?**

Byddwn yn parhau i gynnwys ymarferwyr a rhanddeiliaid yn ein gwaith gydag ymgysylltu ac ymgynghoriadau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer 2024. Byddwn yn gweithio'n agos gyda chyrff dyfarnu sydd am ddatblygu'r cynnig cyffrous newydd hwn. Bydd y cymwysterau newydd yn cael eu cymeradwyo erbyn mis Medi 2026, gan roi blwyddyn academaidd lawn i ysgolion baratoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf ym Medi 2027.

Bydd pecyn o adnoddau addysgu a dysgu ar gael i gefnogi'r cyfnod pontio, a gellir cael mynediad at yr holl wybodaeth am y Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 drwy ein porth Dweud Eich Dweud.

**Darganfyddwch fwy**

Os hoffech ddysgu mwy am ganlyniadau a phenderfyniadau'r ymgynghoriad, cofrestrwch nawr i ymuno â'n gweminar ar 1 Chwefror am 4pm. Mae rhagor o fanylion a chyhoeddiadau hefyd ar gael ar ein gwefan.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth, adborth a chyfraniad. Rydym bellach yn edrych ymlaen at gam nesaf ein gwaith diwygio Cymwys ar gyfer y Dyfodol, a byddwn yn parhau i'ch hysbysu a'ch cynnwys ar y daith wrth inni symud i bennod newydd ar gyfer addysg yng Nghymru.

Yn gywir



Philip Blaker

Prif Weithredwr